



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar
Ysgol Red Rose

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Red Rose

Mae Ysgol Red Rose yn ysgol arbennig annibynnol yn ardal Y Mynydd Bychan yng Nghaerdydd. Mae'n darparu lleoliadau dydd ar gyfer disgyblion rhwng saith ac un deg naw oed sydd ag anawsterau dysgu cymedrol a difrifol, neu anawsterau cymdeithasol ac emosiynol.

Agorwyd yr ysgol ym mis Rhagfyr 2009. Mae 24 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae ychydig o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Awdurdod lleol Caerdydd sy'n ariannu'r rhan fwyaf o'r lleoliadau, ac ariennir ychydig o leoliadau gan Fro Morgannwg.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn adeilad cymunedol. Mae'r ysgol wedi ymestyn ei safle trwy ddefnyddio dau adeilad ychwanegol ar y safle, a thrwy gaffael eiddo ychwanegol ar stryd gyfagos. Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol wedi ailstrwythuro ei thîm rheoli i gynnwys dau bennaeth cynorthwyol. Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers i'r ysgol agor.

Prif ganfyddiadau

Cryfderau

Mae disgyblion yn ymgymryd yn frwdfrydig â gweithgareddau dysgu ac yn ymateb yn gadarnhaol i staff addysgu. Maent yn sgwrsio'n gadarnhaol â phobl sy'n ymweld â'r ysgol, ac yn awyddus i drafod eu gwaith a rhannu'r cynnydd y maent wedi'i wneud.

Mae gan athrawon a staff ddealltwriaeth gref o anghenion emosiynol a chymdeithasol eu disgyblion. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a darparu amgylchedd cefnogol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu hyder a bod yn ddysgwyr mwy effeithiol.

Mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran gwella eu hagweddau at ddysgu ac ymddygiad, yn unol â'u manau cychwyn.

Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi cryfhau'r tîm rheoli i gefnogi gallu'r ysgol ar gyfer gwella, trwy benodi dau bennaeth cynorthwyol. Mae arweinwyr yn gweithio'n dda gyda thîm addas o bartneriaid sy'n darparu cymorth arbenigol priodol a lefel fuddiol o gyngor a her. Mae hyn yn helpu'r ysgol i ddechrau mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr ymweliad monitro diwethaf.

Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r pennaeth yn cyfleu ei weledigaeth ar gyfer yr ysgol yn effeithiol iawn ac mae wedi gwella cyfleusterau'r ysgol i fynd i'r afael ag anghenion newidiol ei disgyblion.

Meysydd i'w datblygu

Mae'r ysgol wedi gwella ansawdd y wybodaeth y mae'n ei chasglu am ddisgyblion pan fyddant yn ymuno â'r ysgol. Mae hyn yn helpu'r ysgol i ddarparu amgylchedd diogel sy'n cefnogi anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i osod targedau dysgu ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae'r ysgol wedi gwella'i phrosesau hunanwerthuso yn ddiweddar. Er ei fod yn anghyflawn, mae adroddiad hunanwerthuso'r ysgol yn ddogfen onest a defnyddiol sy'n llywio cynllunio gwelliant ac yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r ysgol wedi cyflwyno calendr o weithgareddau sicrhau ansawdd sy'n cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith a theithiau dysgu. Fodd bynnag, mae llawer o'r prosesau hyn yn ddiweddar iawn, ac nid ydynt yn canolbwyntio ar safonau medrau disgyblion, nac yn nodi'n ddigon clir beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran datblygu llawer o'r camau a gymerwyd gan yr ysgol i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r ddau ymweliad monitro blaenorol. Mae'n rhy gynnar i werthuso eu heffaith.

Argymhellion

Dylai'r ysgol:

- A1 Sicrhau bod targedau dysgu disgyblion yn cysylltu'n glir â'u nodau a'u dyheadau yn y tymor hir**
- A2 Sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio ar safonau gwaith a chynnydd disgyblion, ac ansawdd yr addysgu**

Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

Argymhelliad 1: Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â meysydd diffyg cydymffurfio a nodwyd yn llwyddiannus yn ystod yr ymweliad monitro diwethaf.

Argymhelliad 2: Parhau i wella'r broses asesu gwaelodlin i ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltu â dysgu

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol wedi gwella'i phrosesau i sefydlu darlun mwy cyflawn o fannau cychwyn disgyblion pan fyddant yn ymuno â'r ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio'n agos â seicolegydd addysg sy'n cynnal asesiadau manwl o'r holl ddisgyblion. Hefyd, mae'r ysgol yn cyflogi therapydd lleferydd ac iaith, sy'n cwblhau asesiad gwaelodlin o leferydd ac iaith disgyblion. Yn ychwanegol, mae arbenigwr ymddygiadol wedi cwblhau proffiliau ar bron pob un o'r disgyblion i asesu eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth o'r asesiadau hyn yn briodol i helpu gosod targedau disgyblion unigol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Yn ddiweddar, mae wedi cyflwyno mesurau priodol i fonitro cynnydd disgyblion yn unol â'r meysydd hyn, ac adolygu eu targedau yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o ran olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn unol â'r targedau hyn, ac mae'n rhy gynnar i werthuso effeithiolrwydd y prosesau hyn.

Argymhelliad 3: Sicrhau bod pob un o'r disgyblion mwy abl yn ennill cymwysterau mewn cyrsiau achrededig sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluoedd

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i ymestyn ystod a lefel y cymwysterau y mae'n eu cynnig. Er enghraifft, mae wedi cofrestru gyda dau gorff dyfarnu, ac mae staff wrthi'n cwblhau hyfforddiant mewn gweithdrefnau asesu a gwirio mewnol ar hyn o bryd. Mae unedau achredu ychwanegol sydd bellach ar gael i ddisgyblion yn cwmpasu testunau sy'n berthnasol ar y cyfan i'w hanghenion a'u diddordebau, fel cyrsiau byr mewn gofal anifeiliaid, bwyd a gwyddoniaeth.

Mae'r ysgol yn datblygu partneriaethau buddiol gyda darparwyr allanol hefyd, i ymestyn cyfleoedd i ychydig o ddisgyblion gael achrediad ar lefel uwch, lle bo'n briodol.

Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o ran y ddau ddatblygiad hyn. At ei gilydd, nid yw'r ysgol yn defnyddio'i hasesiad o fannau cychwyn disgyblion yn ddigon da i osod nodau tymor canolig a thymor hir sy'n cynnwys llwybrau achredu perthnasol.

Argymhelliad 4: Parhau i gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion weithio ochr yn ochr â disgyblion eraill mewn lleoliadau gwaith, ysgolion prif ffrwd a cholegau, lle bo'n briodol

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion weithio ochr yn ochr â disgyblion eraill mewn lleoliadau gwaith, ysgolion prif ffrwd a cholegau.

Mae'r ysgol yn cynllunio i ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion o'r ysgol fanteisio ar gyfleoedd profiad gwaith pwrpasol mewn caffï cymunedol a fferm. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran datblygu'r cynlluniau hyn.

Argymhelliad 5: Cynllunio ar gyfer dilyniant medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol wedi adolygu'r ffordd y mae'n cynllunio'r cwricwlwm i sicrhau ei bod yn darparu fframwaith clir ar gyfer dilyniant dros gyfnod. Mae hyn wedi helpu'r ysgol i ddatblygu dull mwy cydlynus o gynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws pynciau a chyfnodau allweddol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol wedi dechrau defnyddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd i hysbysu'r lleoliad am dargedau disgyblion unigol ar gyfer llythrennedd a rhifedd, a helpu olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o ran y ddau ddatblygiad hyn, ac mae'n rhy gynnar i werthuso eu heffaith.

Mae'r ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion fanteisio ar weithgareddau dysgu gwerthfawr yn y gymuned. Er enghraifft, maent yn mynd i ddringo, beicio ac yn dysgu *karate*. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu medrau cymdeithasol, eu medrau cyfathrebu a'u medrau corfforol. Mae wedi prynu tŷ ger yr ysgol yn ddiweddar i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau annibynnol mewn lleoliad realistig. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol brosesau cadarn i werthuso'r cynnydd a wna disgyblion yn y meysydd hyn.

Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestrriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/01/2019